Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cogydd Ysgol Gynradd

Ysgol Hiraddug
Dyserth

Gwybodaeth Sywddi Gwag

Manylion yr Hysbyseb

Teitl y Swydd: Cogydd Ysgol Gynradd
Lleoliad: Ysgol Hiraddug, Dyserth
Cyflog: Gradd 4, £14.59 yr awr
Oriau: 27.5 awr yr wythnos
Contract: Adeg Tymor

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y swydd hon, cysylltwch â Tracey Rose ar 07824837781.

Llinell amser recriwtio	
Dyddiad cau:	09/04/2026
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol

Sut i wneud cais

I wneud cais am y swydd wag gyffrous hon, llenwch y ffurflen gais ar-lein ar ein gwefan:

www.sirddinbych.gov.uk/gweithio-gyda-ni

Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol.

Rydym hefo'r hawl i gau'r swydd hon yn gynnar os rydym yn derbyn digon o geisiadau am y rôl. Felly, os oes gennych ddiddordeb, gyrrwch eich cais mor gynnar â phosibl.

Am ddulliau eraill o wneud cais cysylltwch â'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar 01824 706200.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Cydraddoldeb

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau'r Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw ffurflen gais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais a gyflwynir yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

hyderus o ran anabledd
ARWEINYDD

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Amdanoch chi

Rydym yn edrych am gogyddion talentog i ymuno â'n tîm o staff medrus i weithio yn ysgolion Sir Ddinbych. Bydd gan ein hymgeiswyr delfrydol brofiad o arlwyo ar gyfer niferoedd uchel ac o oruchwylio tîm mawr. Mae angen i'n cogyddion goginio a pharatoi prydau ar ein bwydlen sy'n gytbwys o ran maeth ac arlwyo ar gyfer unrhyw ofynion diet arbennig.

Os oes gennych angerdd tuag at arlwyo, ond wedi cael digon ar weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau, yna mae'r cyfle hwn o ddydd Llun i ddydd Gwener yn berffaith i chi. Efallai y byddwch hefyd yn gallu gweithio'n agos at ble rydych yn byw gan fod gennym swyddi ar gael mewn gwahanol ardaloedd yn Sir Ddinbych.

Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi

Oriau hyblyg – cymerwch reolaeth o'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, oriau gwaith sy'n cyd-fynd â thymhorau ysgol.

Tymor ysgol yn unig – yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda 13 wythnos i ffwrdd y flwyddyn.

Eich lles – gweithleoedd cymdeithasol, gofalgar yn cynnig patrymau shifft gyda chydbwysedd.

Cyflog gwych – dyddiadau talu sy'n gyson, gan gynnwys 12 taliad cyfartal hyd yn oed yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dyddiadau cychwyn yn syth – mae gennym swyddi yn barod i'w llenwi, felly gallwch ddechrau gweithio gyda ni cyn gynted â rydych ar gael.

Eich datblygiad – y cyfle i ddatblygu yn eich gyrfa, gan gynnwys hyfforddiant a dyrchafiad.

Buddion staff

Mae ein gweithlu o'r pwysigrwydd mwyaf i ni ac mae Cyngor Sir Dinbych wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gennym ni felly nifer o bolisïau cydbwysedd bywyd a gwaith, polisïau gwell sy'n addas i rieni, cynllun pensiwn gwych a Rhaglen Cymorth i Weithwyr. Mae gennym ni hefyd gynlluniau talebau gofal plant, beicio i'r gwaith ac aberthu cyflog ar gyfer car, yn ogystal â chynllun Rhoi wrth Ennill.

Mae gan ein staff hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth gyda gostyngiad i ganolfannau hamdden, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, gostyngiadau mewn cannoedd o fanwerthwyr cenedlaethol, a llawer mwy.

Tysteb

Dechreuais weithio i Wasanaethau Arlwyo Sir Ddinbych 7 mlynedd yn ôl fel Cymhorthydd Arlwyo. Yn ystod fy amser fel Cymhorthydd Arlwyo cefais hyfforddiant yn y gwasanaeth a chael dyrchafiad i fod yn Gogydd Ardal ble cefais y cyfle i redeg ysgolion ledled y sir a chynyddu fy mhrofiad mewn ceginau ysgolion. Ar ôl 4 mlynedd fel Cogydd Ardal roeddwn yn llwyddiannus mewn dyrchafiad i fod yn Gogydd Ysgol Uwchradd yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl, yn darparu cinio i dros 1000 o ddisgyblion a staff bob dydd a goruchwylio tîm o 14 o bobl anhygoel. Y datblygiad diweddaraf yn fy ngyrfa yw dyrchafiad i fod yn Oruchwyliwr Ardal ble byddaf yn cefnogi'r tîm rheoli gyda gweithrediad o ddydd i ddydd 35 ysgol a chyflwyno'r prosiect Prydau Ysgol Am Ddim. Mae bob dydd wedi bod yn wahanol yn ystod fy amser gyda Gwasanaeth Prydau Ysgol Sir Ddinbych ac rwyf wedi gwerthfawrogi'r amrywiaeth a'r cyfleoedd a gefais gan y rheolwyr sydd wedi fy helpu i a fy nghydweithwyr i ddatblygu yn ein gyrfaoedd mewn amgylchedd cefnogol a chroesawgar.

Clair Stott - Goruchwyliwr Arlwyo Ardal

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Cogydd Ysgol Gynradd
Graddfa: Gradd 4
Gwasanaeth: Priffyrdd a Gwasanethau Amgylcheddol
Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Arlwyo
Yn atebol i: Rheolwr Gwasanaethau Arlwyo
Rhif y Swydd: 03419

Categori Iaith Gymraeg

Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidio
Lefelau o ran sgiliau Cymraeg

Pwrpas y Swydd

I ddarparu prydau ysgol yn unol â bwydlenni canolog a chyflawni'r dyletswyddau goruchwylio a rheoli cysylltiedig.

Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau

Coginio a pharatoi prydau bwyd a byrbrydau amser egwyl i gwrdd â gofynion bwydlen a dietegol arbennig, cytuno ar safonau ansawdd ac yn unol ag amserlen yr ysgol.

Archebu deunyddiau gan gyflenwyr canolog i gadw stociau digonol i gwrdd â gofynion o ddydd i ddydd.

Cwblhau'r ffurflenni arlwyo wythnosol, taflenni amser a chofnodion eraill sy'n angenrheidiol i sicrhau gweinyddiaeth effeithiol y gwasanaeth.naeth

Niferoedd uwch nag erioed o blant yn cael cinio.

Sicrhau bod yr holl fannau paratoi bwyd, storio a gwasanaethu ac arferion gwaith y staff yn hylan a diogel. Bod yn gyfrifol am ddiogelwch cegin yr ysgol gan gynnwys y rhewgelloedd a chypyrddau stoc.

Hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn yr ysgol er mwyn cynyddu nifer Prydau Ysgol.

Adnoddau / Offer / Deunyddiau

Adrodd ynghylch yr holl ddiffygion offer ac adeiladau er mwyn hwyluso gwaith atgyweirio cyflym a boddhaol.

Goruchwylio / Rheoli Pobl

Er nad yw deiliad y swydd yn gyfrifol am recriwtio staff, bydd yn cynnal holl hyfforddiant y swydd ac yn trefnu lleoliadau o ddydd i ddydd

Goruchwylio hyd at 5 o gymorthyddion arlwyo i ddarparu prydau maethlon o fewn targedau cost a llafur. Hyfforddi staff newydd gyda materion Iechyd, Diogelwch a Hylendid Bwyd fel y bo'n briodol

Trefniant safonol lle bydd pob Cogydd ar lefel 2 yn atebol i'r Goruchwyliwr Arlwyo Ardal perthnasol, sydd yn ei dro yn atebol i'r Rheolwr Arlwyo Ardal.
Mae'r Cymorthyddion Arlwyo yn atebol i'r Cogydd.

Cysylltiadau:

- Goruchwyliwr Arlwyo Ardal – i ymgysylltu ar bob agwedd ar y gwasanaeth a datrys unrhyw ddiffygion posibl oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld neu gyfathrebiad sy'n chwalu.
- Cyflenwyr – i archebu deunyddiau
- Peirianwyr Cynnal a Chadw – i drwsio a chynnal gwaith cynnal a chadw arferol o offer y gegin
- Arolygwyr Iechyd a Diogelwch Amgylcheddol – i gydlynu mewn arolygiadau o'r eiddo ac arferion gwaith
- Pennaeth – i drafod ansawdd y gwasanaeth a materion cyffredinol ynghylch darpariaeth gwasanaeth
- Rhieni – i drafod diet arbennig

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Coginio a pharatoi prydau bwyd a byrbrydau amser egwyl i gwrdd â gofynion bwydlen a gofynion dietegol arbennig, cyd-fynd â safonau ansawdd wedi eu cytuno a chyd-fynd ag amserlen yr ysgol.

Archebu deunyddiau gan gyflenwyr canolog i gadw stoc digonol i gwrdd â gofynion dydd i ddydd.

Cwblhau'r ffurflenni arlwyo wythnosol, taflenni amser a chofnodion eraill sy'n angenrheidiol i sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei weinyddu yn effeithiol. Mae cogyddion sy'n gyfrifol am un neu fwy o aelodau o staff yn gyfrifol am neilltuo oriau yn eu ceginau o fewn targedau llafur sy'n cael eu penderfynu gan y Rheolwyr Arlwyo.

Cofnodi nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol amser cinio, naill ai â llaw neu drwy ddefnyddio system cyfrifiadur rhagdaledig, cwblhau gwaith papur diwedd y dydd a bob wythnos.

Sicrhau bod yr holl fannau paratoi bwyd, storio a gwasanaethu ac arferion gwaith y staff yn lân a diogel. Cyfrifoldeb am ddiogelwch cegin yr ysgol gan gynnwys y rhewgelloedd a

chypyrddau stoc.

Hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn ysgolion i gynyddu'r defnydd a wneir o'r cyfleusterau a chreu elw.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; clirio DBS, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.

Gweledigaeth / Cyd-destun

Pwrpas y swydd yw darparu gwasanaeth prydau ysgol effeithlon a chost effeithiol gan weithio i fwydlenni canolog gyda rhywfaint o le ar gyfer amrywiadau lleol, yn amodol ar gytundeb y Goruchwyliwr Arlwyo Ardal.

Manylion Am Yr Unigolyn

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

	Meini prawf hanfodol	Meini prawf dymunol	Dull Asesu
1. Addysg A Chymwysterau		City & Guilds 706 1/2 neu gyfwerth ag NVQ Tystysgrif mewn Hylendid Bwyd Sylfaenol (nid yw hyn yn hanfodol gan y bydd hyfforddiant yn cael ei roi)	Ffurflen gais Cyfweliad Tystysgrif
2. Profiad Perthnasol	Profiad o arlwyo ar gyfer niferoedd mawr	Profiad blaenorol mewn Gwasanaeth Prydau Ysgol	Ffurflen gais neu Cyfweliad
3. Gwybodaeth A Sgiliau Cysylltiedig Â'r Swydd	Ymwybyddiaeth o weithdrefnau Iechyd, Hylendid a Diogelwch Bwyd Gallu gweithio yn unol â maint prydau a bwydlenni		Ffurflen gais neu Cyfweliad
4. Nodweddion Personol	Prydlon a dibynadwy		Ffurflen gais neu Cyfweliad
5. Gofynion Eraill	Empathi gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru Rhaid i'r person fod yn lân, yn daclus ac ymfalchïo yn eu gwaith	Rhugl yn y Gymraeg	Ffurflen gais neu Cyfweliad

Diolch am eich diddordeb

Cyngor Sir Ddinbych

Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Facebook: @CyngorSirDdinbych

Twitter: @CyngorSDd

Pencadlys: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN